Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Cynnal a Chadw'r Gaeaf o'r Rhwydwaith Ffyrdd yng Nghymru**

**Dyddiad:** **6 Ionawr 2010**

**Gan:** **Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

Mae nifer o bobl wedi cysylltu â mi yr wythnos hon ynghylch y trefniadau a'r cyfrifoldebau am ddarparu a gwasgaru halen ac am gynnal y stoc halen yn ystod y tywydd oer.

Ein cyfrifoldeb ni, fel Llywodraeth, yw cadw Cefnffyrdd Cymru ar agor yn y gaeaf (gweler y cynllun amgaeëdig). Yr awdurdodau lleol perthnasol sy'n gyfrifol am weddill y rhwydwaith ffyrdd yng Nghymru.

Fel Llywodraeth, rydym yn cyflawni'n cyfrifoldebau mewn dwy ffordd. Yn gyntaf rydym yn uniongyrchol gyfrifol am gadw traffyrdd yr M4 a'r M48 yn y De ar agor yn y gaeaf ac am wasgaru halen arnynt, gan gynnal ein cyflenwadau halen mewn depos ar hyd yr M4. O ran y Cefnffyrdd eraill yng Nghymru, rydym yn rhoi contractau i awdurdodau priffyrdd lleol brynu a gwasgaru halen ar ein rhan. Mae'r awdurdodau lleol yn gwneud eu trefniadau eu hunain i brynu'r halen sydd ei angen ar gyfer eu rhwydweithiau ffyrdd.

Ar ôl cael problemau tebyg oherwydd y tywydd y llynedd, buom yn annog awdurdodau lleol i gynyddu eu cyflenwadau halen a gwneud trefniadau i gynorthwyo ei gilydd, ac yn wir, fe wnaeth llawer ohonynt brynu cyflenwadau halen ychwanegol a gwneud y trefniadau priodol. Er hynny, rydym yn ymwybodol fod cyflenwadau halen nifer sylweddol o awdurdodau bellach wedi mynd yn brin gan fod y tywydd oer wedi parhau.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi mwy o halen i rai awdurdodau lleol ei ddefnyddio ar y rhannau o'r rhwydwaith cefnffyrdd y maent yn eu cynnal ar ein rhan. Golyga hyn y bydd ganddynt fwy o halen i'w ddefnyddio ar ffyrdd lleol.

Yn ogystal, rydym yn cysylltu â Salt Union, sy'n cyflenwi halen i'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol Cymru, i'w helpu i flaenoriaethu pwy sy'n cael y cyflenwadau. Byddwn yn parhau i gysylltu ag awdurdodau lleol i sicrhau bod halen yn cael ei gyflenwi yn ôl y drefn flaenoriaethol, fel y bo'n briodol.

Yn ôl y rhagolygon, mae’r tywydd oer yn debygol o barhau am o leiaf 10 niwrnod arall. Bydd angen dosbarthu’r halen sydd ar gael gan gadw hynny mewn cof, ac ystyried hefyd pa ffyrdd y dylid gwasgaru’r halen arnynt.